# CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Chwefror 6, 2024, yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Ywain Myfyr – Maer
Y Cynghorydd Bob Gunton – Dirprwy Faer
Y Cynghorwyr Peter Jones; Branwen Rhys Dafydd; John Raghoobar – yn mynychu yn rhithiol; Ray Peters; Peter Barnes; John Cadwaladr; Nia Evans; Jo Checkley; Sion Edwards.
Mr Rhys Williams – Clerc

**C72.2023/2024.1 SESIWN CYHOEDDUS**
Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol

**C73.2023/2024.2 YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Heilyn Williams, Dyfrig Siencyn, Y Cynghorydd Sirol Linda Morgan.

**C74.2023/2024 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**C75.2023/2024 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR IONAWR 9, 2024**
Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod.

**C76.2023/2024 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1. **Les ar gyfer y Cae Pêl droed i'r Clwb Pêl droed - Y Cynghorydd Nia Evans yn Cadeirio**
   **Cyflwynwyd:** Dim gwybodaeth bellach i adrodd.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

2. **Gardd Bywyd Gwyllt Felin Uchaf**
   **Cyflwynwyd:** Yr angen am gopi o'r cytundeb newydd gyda'r gwirfoddolwyr newydd i gael eu rhannu gydag aelodau o'r Cyngor.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

3. **Llwybr Pen y Banc**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynydd ar y funud.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

4. **Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

5. **Llwybr A470 rhwng Cwt Gwyn / Coed Ffridd Arw i Tanyfron**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma hyd yma.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

6. **Problemau Parcio rhwng banc HSBC a Siop Hosbis yn y Sgwâr**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

7. **Rhaglen Ymrwymiad Cymunedol**
   **Cyflwynwyd: Diweddariad ar sawl pwynt gweithredu o gyfarfod mis Hydref 2023 y Cyngor megis:**

i) **Trefnu ymchwiliad i sefydlu Bwrdd Arddangos penodol i'r Cyngor:**
**Cyflwynwyd:** Adborth gan y Clerc ei fod yn prosesu cais am gyngor o flaen cyflwyno cais cynllunio llawn.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

ii) **Arwyddion Gefeillio Newydd**
**Cyflwynwyd:** Adborth gan y Clerc ei fod yn prosesu cais am gyngor o flaen cyflwyno cais cynllunio llawn yn dilyn derbyn manylion penodol ar gyfer lleoliad y 2 x arwyddion pellach.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

8. **Cynllun Parcio Preswyl y Sir**
**Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

**C77.2023/2024 SEFYLLFA ARIANNOL**

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc a chadarnhau'r taliadau canlynol:

| Dyddiad | Rhif Siec | Enw | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| 07.01.2024 | 104145 | HMRC | PAYE – siec wedi canslo | 0.00 |
| 07.01.2024 | 104146 | HMRC | Paye mis 8<br>05.11.23 – 05.12.23 | 18.55 |
| 20.01.2024 | 104147 | Rhys Williams | Stampiau / Ffon / Teipio | 170.00 |
| 20.01.2024 | 104148 | Vision ICT | Costau cynnal rhwydwaith safle we | 156.00 |
| 21.01.2024 | 104149 | Starboard Systems Ltd | Costau cynnal system cyfrifo newydd | 910.80 |
| 29.01.2024 | 104150 | Wendy Owen | Costau cyfieithu Ionawr 2024 | 88.27 |
| 06.02.2024 | 104151 | Rhys Williams | Cyflog Chwefror 2024 | 478.40 |

**I bennu Presept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-2025.**
**Cyflwynwyd:** Cofnodion o Is–bwyllgor Cyllid y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 30, 2024 yn argymell praespt o £77,000 ynghyd a chyfraniadau ariannol i gyrff lleol ac eraill.
**Penderfynwyd:** Derbyn yr argymhellion ac i bennu Praesept o £77,000 ar gyfer 2024 – 2025. Hefyd i sefydlu llinell gwariant ar gyfer
**hys**sbysebion, gyda cyllideb o £1,000.00.

**C78.2023/2024 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

1. <u>**Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref**</u>

i) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr** (Y Maer) - gweithgarwch Cynllun Lleol i Ddolgellau ymgysylltiad **– copi meddal neu drwy'r post i ddilyn**

ii) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd i holi am brisiau llenni i'r Llyfrgell Rydd**

iii) **Y Cynghorydd Bob Gunton** - gwaith cynllunio gyda goleuadau Nadolig 2025. Angen newid rhai stribion o oleuadau, a nodwyd

yr angen i archebu mwy o oleuadau lliw. Yn ymchwilio i'r opsiynau i ehangu'r ardaloedd dan sylw.

iv) **Y Cynghorydd Nia Evans** - gwaith 'Lle yn y Dref' yn mynd o nerth i nerth. Pecynnau bwyd yn cael eu dosbarthu allan yn llwyddiannus a'r niferoedd yn cynyddu. Ymchwiliad yn mynd ymlaen i opsiynau gyflogi swyddog adfywio bro.
**Penderfynwyd:** Gwahodd swyddog priodol o Gyngor Gwynedd i gyfarfod mis Mawrth 2024 y Cyngor i drafod hyn.

v) **Y Cynghorydd Ray Peters** – mynychu cyfarfod o Is-bwyllgor pamffledi hysbysu busnesau Cyllid y Cyngor 30.01.2024.

vi) **Y Cynghorydd Peter Barnes** - Mynychu cyfarfod o Gyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Bro Idris. Gwaith paentio ar set gyhoeddus i ddigwydd yn ystod tywydd sych. Mynychu cyfarfod ynglŷn â safle Coed y Brenin. Ymdrech i hybu hysbysebu busnesau'r dref.
**Penderfynwyd**: Annog is-grŵp o'r Cyngor i arwain ar y mater o hysbysu busnesau y dref, megis: Y Cynghorydd Bob Gunton (Dirprwy Faer), a'r Cynghorwyr Peter Barnes, Ray Peters, Branwen Rhys Dafydd.

vi) **Y Cynghorydd Jo Checkley -** Cyfarfod o Bartneriaeth Dolgellau a Chyfarfod ynglyn a dyfodol safle Coed y Brenin.

vii) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** – mynychu cyfarfod o Is-bwyllgor Cyllid y Cyngor 30.01.2024. Cyfarfod ynglyn a dyfodol safle Coed y Brenin. Cyfarfod o Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams. Cyfarfod o Gyngor Coleg Meirion/Dwyfor - buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar y ffordd dros y blynyddoedd nesaf.
**Penderfynwyd**: Cysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatgan pryder ynglyn a dyfodol safle Coed y Brenin.

viii) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd** – gwaith casglu sbwriel yn lleol.

ix) **Y Cynghorydd Peter Jones –** wedi gwirfoddoli casglu sbwriel ym mharc y dref. Pryder am ddiogelwch coedlan y Parc Cenedlaethol ger ardal Bodlondeb yn ystod y tywydd garw. Posibilrwydd o ddifrod i aneddau. Oes unrhyw ohebiaeth o rhif 4 Bodlondeb ynglyn a hyn? Drwy'r Clerc - Na hyd yma ond i'

**2 <u>Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd</u>**
Dim i adrodd.

**C79.2023/2024 GOHEBIAETH**

Dim i adrodd.